Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Dinas a Sir Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3823A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Yr hyn yr edrychom arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 6

Pam yr ymgymerwyd â'r archwiliad hwn 6

Strategaeth ddigidol y Cyngor 7

Yr hyn a ganfuom: Mae gan y Cyngor weledigaeth eglur ar gyfer ei ddull o ymdrin â digidol ac mae’n datblygu trefniadau cynhwysfawr i gefnogi’r gwaith o ddarparu a monitro ei strategaeth ddigidol 7

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a meini prawf archwilio 13

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb o’r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad**

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a'n hargymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam mae dull strategol o ymdrin â digidol yn bwysig**

1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau'r cyngor mewn ffordd fwy economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae hefyd yn ffordd bwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion lles ac yn cyflawni datblygu cynaliadwy.

2 Gall cael dull strategol clir o ymdrin â digidol ddod â sawl budd megis:

- sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio digidol a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer cymunedau lleol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
- helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill a'i fod yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol;
- lleihau'r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a chyda phartneriaid;
- ystyried adnoddau digidol dros y tymor byr, canolig a hir gyda'n gilydd; a
- darparu fframwaith i fonitro cynnydd yn ei erbyn dros y tymor byr, canolig a hir.

**Ffocws ein harchwiliad**

3 Gwnaethom edrych i ba raddau y datblygwyd dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau’r Cyngor.

**Ein canfyddiadau allweddol**

4 Canfuwyd gennym fod gan y Cyngor ddull strategol sydd wedi’i fynegi’n eglur o ymdrin â digidol a hysbysir gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau’r presennol a’r dyfodol ac a ddeallir gan aelodau etholedig a swyddogion allweddol. Mae ganddo drefniadau cynhwysfawr hefyd i asesu a monitro effaith ei ddull digidol a’r gwerth am arian. Mae’r Cyngor hefyd yn deall effaith ehangach digidol ac yn gweithio ar y cyd i helpu i wireddi ei ddyheadau digidol. Fe wnaeth y Cyngor adolygu ei strategaeth ddigidol flaenorol, ond nid oedd hwn yn adolygiad ffurfiol ac ni wnaeth aelodau dderbyn ei ganlyniad.

**Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

**Manteision adolygiad strategol**

A1 Pan fydd y Cyngor yn cynnal adolygiadau o'i strategaeth ddigidol yn y dyfodol, i'w helpu i sicrhau ei fod yn dysgu o'r adolygiadau ac yn rhannu'r dysgu hwn yn eang, dylai'r Cyngor:

- benderfynu a oedd ganddo wybodaeth ddigonol a phriodol ar y cychwyn i benderfynu ar werth a manteision darparu'r strategaeth yn gyffredinol a phrosiectau digidol unigol;
- asesu pa un a ddarparwyd prosiectau digidol yn brydlon, yn unol â chostau â manteision tybiedig yn cael eu gwireddu a nodi unrhyw rwystrau sy'n atal darpariaeth lwyddiannus prosiectau;
- adolygu prydlondeb ei brosesau monitro ac adrodd ar gynnydd i asesu a amlygwyd risgiau a phroblemau a oedd yn dod i'r amlwg yn ddigon cynnar i swyddogion gymryd camau lliniaru; ac
- adolygu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu ar gyfer ei strategaeth ddigidol i sicrhau eu bod yn cefnogi ei darpariaeth yn effeithiol.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn yr edrychom arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn

1 Gwnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

2 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gennym ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023.

3 Aethom ati i ateb y cwestiwn **'Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?'** Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol?
- A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
- A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
- Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio?

4 Mae **Atodiad 1** yn cyflwyno'r cwestiynau manwl yr oeddem yr aethom ati i'w hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

## Pam yr ymgymerwyd â'r archwiliad hwn

5 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6 Ein nod oedd:

- rhoi sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau yn helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol;

- esbonio sut mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau gwell canlyniadau; ac
- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

# Strategaeth ddigidol y Cyngor

7 Ym mis Ebrill 2023, cymeradwyodd y Cabinet strategaeth ddigidol 2023-28 gyfredol y Cyngor.

8 Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer digidol fel y nodir yn y strategaeth yw i'r Cyngor 'ddefnyddio technoleg ddigidol i wella bywydau pobl, galluogi mynediad digidol at wasanaethau 24 awr y dydd, a gwella effeithlonrwydd gweithredol'.

9 Ategir y weledigaeth hon gan chwe nod strategol digidol:

1. Gwasanaeth Cwsmeriaid Rhagorol sy'n cyd-fynd â'n safonau gwasanaeth
2. Gwasanaethau digidol sy'n canolbwyntio ar bobl
3. Isadeiledd a systemau digidol cadarn
4. Data hygyrch sy'n cefnogi cymunedau a pherfformiad y cyngor
5. Gweithlu a chymunedau sy'n fedrus ac yn hyderus yn ddigidol
6. Dinas a sir sydd wedi'i chysylltu'n ddigidol

10 Mae'r Cyngor wedi dyrannu £2 filiwn gychwynnol i gefnogi darpariaeth ei strategaeth ddigidol.

# Yr hyn a ganfuom: Mae gan y Cyngor weledigaeth eglur ar gyfer ei ddull o ymdrin â digidol ac mae'n datblygu trefniadau cynhwysfawr i gefnogi'r gwaith o ddarparu a monitro ei strategaeth ddigidol

## Defnyddiodd y Cyngor amrywiaeth eang o wahanol ffynonellau i hysbysu ei strategaeth ddigidol

11 Ystyriodd y Cyngor amrywiaeth eang o ddata cyfredol a thueddiadau tebygol yn y dyfodol wrth ddatblygu ei uchelgeisiau digidol gan arwain at ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa bresennol. Hysbyswyd dull digidol strategol y Cyngor gan:

- ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22;
- data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar fynediad at y rhyngrwyd, defnydd o'r rhyngrwyd a dyfeisiau technoleg;

- proffil demograffig Abertawe a sut y gallai newid yn yr hirdymor a'r effaith bosibl ar ddull digidol y Cyngor;
- canllawiau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 ar - 'Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol';
- risgiau a chyfleoedd a amlygwyd yng nghynlluniau gwasanaeth Gwasanaeth Digidol y Cyngor; ac
- ymgynghori cyhoeddus.

12 Mae'r Cyngor hefyd yn ystwyth o ran ei syniadau ynghylch sut y gallai fod angen i wasanaethau esblygu yn y tymor hwy. Mae defnydd y Cyngor o ddata a deallusrwydd i nodi tueddiadau hirdymor posibl yn y dyfodol yn cryfhau gallu'r Cyngor i esblygu ei ddull i fodloni gofynion a chyfleoedd y dyfodol.

13 Fe wnaeth y Cyngor ymgynghori â'r cyhoedd i hysbysu ei strategaeth ddigidol. Roedd hyn yn cynnwys gwahanol sectorau o'r boblogaeth, er enghraifft, y fforwm pobl dros 50 oed, fforwm iaith Gymraeg, fforwm Tlodi a grŵp Cyswllt Anabledd. Dadansoddodd y Cyngor y data ac ymatebion ymgynghori i hysbysu ei strategaeth ddigidol derfynol. Trwy ei ddadansoddiad, nododd y Cyngor bwysigrwydd cadw dulliau cyfathrebu traddodiadol, fel opsiynau wyneb yn wyneb a dros y ffôn wrth iddo ehangu gwasanaethau ar-lein. Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod y dulliau o gael gafael ar y Cyngor a chyfathrebu ag ef yn hyblyg, fel nad yw trigolion wedi'u cyfyngu i un llwybr. Mae cynnwys amrywiaeth ei ddinasyddion yn natblygiad ei ddull digidol strategol yn helpu'r Cyngor i fod yn sicr ei fod yn dylunio dull sy'n diwallu anghenion dinasyddion ac yn fwy tebygol o sicrhau gwerth am arian.

## Mae gan y Cyngor weledigaeth ddigidol eglur ac yn cynllunio i wireddu ei weledigaeth dros gyfnod amser priodol

14 Mae'r Cyngor sawl blwyddyn i mewn i'w daith trawsnewid digidol. Dechreuodd y Cyngor ei drawsnewidiad digidol yn 2015. Y flaenoriaeth ar yr adeg honno oedd sicrhau bod gan y Sir y seilwaith digidol priodol ar gyfer capasiti a gallu rhyngrwyd. Mae'r prosiectau digidol sy'n cael eu cwmpasu a'u darparu ar hyn o bryd yn deillio o'r gwelliannau i'r seilwaith digidol.

15 Mae'r Sir wedi gwella ei seilwaith digidol ers 2015, ac felly mae ei gweledigaeth hefyd wedi esblygu i 'ddefnyddio technoleg ddigidol i wella bywydau pobl, galluogi mynediad digidol at wasanaethau 24 awr y dydd, a gwella effeithlonrwydd gweithredol'. Nodir y weledigaeth hon yn strategaeth ddigidol 2023-28 y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cyfathrebu'r weledigaeth hon ar draws y sefydliad ac fe'i deallir ar draws gwasanaethau ac ymhlith Aelodau Etholedig allweddol. Mae hyn yn golygu bod dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni.

16 Mae'r Cyngor wedi ystyried beth sy'n amserlen briodol ar gyfer ei strategaeth ddigidol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amserlen pum mlynedd i adlewyrchu newid a chyflymder technoleg ddigidol yn esblygu. Mae'r amserlen ar gyfer y

strategaeth ddigidol bresennol yn cyd-fynd â chynllunio corfforaethol a’r cylch etholiadol. Fodd bynnag, bydd y weledigaeth a nodau strategol digidol yn cael eu cyflawni dros dymor hwy, ac felly hefyd wyth canlyniad y strategaeth ddigidol. Mae’r Cyngor yn bwriadu adolygu cynnydd y strategaeth yn 2028 a defnyddio’r dysgu hwn i hysbysu fersiwn nesaf ei ddull digidol strategol.

## Mae’r Cyngor yn deall effaith ehangach digidol ac yn gweithio ar y cyd i helpu i wireddu ei ddyheadau digidol

17 Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i gysoni ei ddull digidol â phartneriaid. Mae Bwrdd Trawsnewid Digidol yn goruchwylio’r strategaeth ddigidol ac mae’r Bwrdd hwn yn rhan o raglen trawsnewid corfforaethol ehangach y Cyngor. Mae’r strategaeth ddigidol yn cyd-fynd yn eglur â ‘Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy’ (Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2023-28), ac yn enwedig ag amcan llesiant y Cyngor, ‘Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd’. Trawsnewid digidol yw un o’r blaenoriaethau sy’n cefnogi cyflawniad y Cyngor o’r amcan llesiant hwn. Mae cynnwys trawsnewid digidol yn y Cynllun Corfforaethol yn codi ei broffil a'i bwysigrwydd i’r Cyngor o ran cyflawni ei raglen trawsnewid ehangach sydd â’r potensial o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau ar gyfer ei weithlu a’i ddefnyddwyr gwasanaeth.

18 Ceir aliniad eglur rhwng Strategaeth a Chynllun Gweithlu 2022-27 y Cyngor a’r Strategaeth Ddigidol. Mae gan y Strategaeth Gweithlu swyddogaeth i sicrhau gwell sgiliau a hyder digidol ac mae Cynllun Rheoli Asedau 2021-2025 y Cyngor yn cyfeirio at ddefnyddio technoleg ddigidol i weithredu Rhaglen Ystwyth y Cyngor. Mae’r Cyngor o’r farn bod digidol yn alluogydd allweddol i gyflawni blaenoriaethau eraill y Cyngor.

19 Trwy ddadansoddi data a deall cyfraddau allgau digidol presennol, mae’r Cyngor wedi ymrwymo i leihau cyfraddau allgau. Mae’r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd yn agos â chamau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau allgau digidol. Hefyd, mae’r strategaeth ddigidol yn cyd-fynd ag achos busnes rhaglen ddigidol y Fargen Ddinesig ac fe wnaeth y Cyngor ystyried Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru yn ei ystyriaeth o’i uchelgeisiau a’i flaenoriaethau digidol ei hun. Ar adeg ein gwaith maes, er nad oedd y Bwrdd Iechyd Lleol wedi cwblhau ei strategaeth ddigidol eto, mae gan y Cyngor gynrychiolaeth ar y gweithgor Bwrdd Iechyd perthnasol sy’n gyfrifol am ei llunio. Gall ystyriaeth o fwriadau digidol rhanddeiliaid eraill a chysoni strategaethau mewnol ac allanol helpu’r Cyngor i rannu adnoddau, osgoi ailadrodd ymdrechion a helpu i nodi cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog.

20 Datblygodd y Cyngor ffactorau llwyddiant hanfodol yn seiliedig ar bum ffordd o weithio yr egwyddor datblygu cynaliadwy i’w helpu i asesu a fydd manteision a chanlyniadau ei raglen trawsnewid digidol yn cael eu gwireddu. Hefyd, mae’r Cyngor wedi ystyried sut y gall y strategaeth ddigidol gyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol. Mae hyn yn cryfhau gallu’r Cyngor i fesur effaith ei ddull strategol.

21 Mae’r Cyngor yn gwerthfawrogi gweithio partneriaeth o ran cyflawni ei uchelgeisiau strategol digidol. Mae adolygiad blynyddol o berfformiad 2021-22 y Cyngor yn nodi

manylion llawer o wahanol weithgareddau cydweithredol gyda chynghorau eraill yn y rhanbarth, y sector preifat a'r trydydd sector i wella cysylltedd digidol, seilwaith digidol, cynhwysiant digidol, a sgiliau digidol. Mae'r strategaeth ddigidol yn cyfeirio at weithio partneriaeth er enghraifft drwy'r Fargen Ddinesig a chyda phartneriaid addysg. Mae gan y Cyngor gydweithrediad adeiladol gydag Ardal Gwella Busnes hefyd. Mae'r bartneriaeth hon yn cydnabod sgiliau ac arbenigedd pob sefydliad, ac yn cydweithio i ddatblygu cynnyrch y mae'n ei obeithio y bydd o fudd ar y cyd i fusnesau a'r cyhoedd.

22 Mae'r Cyngor yn bartner allweddol yn Rhaglen Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac mae'r bartneriaeth yn gweithio'n gydweithredol i gynorthwyo cyflawniad ei gilydd i ddarparu eu strategaeth trawsnewid digidol yn ogystal â chefnogi twf economaidd a gwella cynhwysiant cymdeithasol. Gall gweithio mewn partneriaeth arwain at rannu gwybodaeth, arbenigedd a/neu adnoddau a all arwain at well canlyniadau tra hefyd yn gwella gwerth am arian.

## Mae'r Cyngor wedi dyrannu adnoddau i ddarparu ei strategaeth ddigidol ac mae ganddo drefniadau i asesu'r costau, y manteision a'r risgiau

23 Mae'r Cyngor o'r farn bod digidol yn alluogydd newid allweddol ar gyfer ysgogi gwelliant trawsnewidiol ac mae wedi dyrannu £2 filiwn i helpu i ariannu darpariaeth ei ddull digidol strategol. Fe wnaeth y Cyngor ddyrannu'r swm hwn yn seiliedig ar y balans ar ddiwedd y flwyddyn ariannol o Gronfa Ailstrwythuro Wrth Gefn y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio'r gronfa wrth gefn hon i ariannu agweddau eraill ar ei raglen drawsnewidiol ehangach, felly mae'r rhesymeg o ran pam wnaeth y Cyngor ddyrannu'r swm hwn ar gyfer digidol yn aneglur. Er bod dyrannu cyllid penodol ar gyfer trawsnewid digidol yn dangos ymrwymiad y Cyngor a'i gydnabyddiaeth o'i bwysigrwydd, gallai'r ffynhonnell bresennol o gyllid o falans cronfa wrth gefn godi a gostwng dros amser. Gallai hyn arwain i wasanaethau fod yn aneglur ynghylch y cyllid sydd ar gael yn y dyfodol gan arwain at ansicrwydd posibl ymhlith gwasanaethau i ddatblygu prosiectau digidol yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn gallu sicrhau ffynonellau cyllid allanol.

24 Mae'r Cyngor wedi sefydlu dull strwythuredig o asesu costau, manteision a risgiau ar gyfer pob prosiect digidol sy'n gwneud cais am gyllid. Mae'n rhaid i wasanaethau sy'n cyflwyno cynlluniau i'r Bwrdd Trawsnewid Digidol gynnwys costau amcangyfrifedig, unrhyw arbedion Cynllun Ariannol Tymor Canolig, manteision disgwyliedig a risgiau prosiectau. I asesu pob prosiect digidol, datblygodd y Cyngor feini prawf sgorio cadarn i benderfynu pa brosiectau digidol i'w cynorthwyo'n ariannol o fewn y cyllid cyffredinol sydd ar gael. Ym mis Mehefin 2023, ystyriodd y Bwrdd Trawsnewid Digidol y tranche cyntaf o brosiectau. Ystyriodd y Bwrdd 21 o brosiectau a derbyniodd 6 gymorth ariannol i ddarparu'r prosiectau digidol dros y tymor canolig. I'r prosiectau digidol hynny na chawsant eu cymeradwyo ar gyfer y gronfa ddigidol gwerth £2 filiwn, ceir ffynonellau eraill o

gyllid, fel y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Addysg, ac felly byddant yn dal i gael eu darparu.

## Ceir trefniadau cynhwysfawr i asesu a monitro effaith dull digidol y Cyngor a'r gwerth am arian

25 Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr a ddylai ddarparu sail iddo fonitro prosiectau digidol unigol a'i strategaeth ddigidol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai o'r trefniadau yn newydd, neu wrthi'n cael eu datblygu, ac felly mae'n rhy gynnar i asesu eu heffeithiolrwydd.

26 Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Trawsnewid Digidol i oruchwylio'r strategaeth ddigidol a phrosiectau digidol unigol. Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau sy'n cadeirio'r Bwrdd Trawsnewid Digidol. Cynrychiolir pob cyfarwyddiaeth ar y Bwrdd yn ogystal â swyddogion o swyddogaethau corfforaethol fel adnoddau dynol, cyllid, a'r tîm digidol. Gall cynrychiolaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor leihau'r perygl o ailadrodd ymdrechion, gall nodi cyfleoedd i wahanol wasanaethau gydweithredu i sicrhau manteision lluosog a sicrhau dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau digidol y Cyngor.

27 Bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn monitro cynnydd a risgiau i bob prosiect digidol beth bynnag fo'r ffynhonnell gyllid, gan ddarparu trosolwg corfforaethol o'r holl brosiectau trawsnewid digidol. Gan fod y Cyngor wedi dyrannu cyllid ar gyfer ei dranche cyntaf o brosiectau digidol, ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn datblygu arolwg tracio 'manteision' y bydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol yn gyfrifol am ei fonitro. Mae gan y trosolwg hwn y potensial o helpu'r Cyngor i fod â golwg cynhwysfawr ar ei holl brosiectau trawsnewid digidol, i nodi meysydd o lwyddiant a phrosiectau nad ydynt yn cyflawni yn brydlon na'n sicrhau'r manteision a fwriadwyd.

28 Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau perfformiad i gefnogi ei strategaeth ddigidol, ond nid yw'r mesurau hyn wedi'u hategu gan ddata sylfaenol, targedau nac amserlenni ar hyn o bryd. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn llunio Cynllun Rhaglen a ddylai gynnwys mwy o fanylion am sut y mae'r Cyngor yn bwriadu darparu'r gwahanol agweddau ar y strategaeth ac erbyn pryd. Heb y manylion hyn, bydd yn anodd i'r Cyngor fonitro cynnydd, cyflawniad ei ganlyniadau dymunol ac i benderfynu a yw'n sicrhau gwerth am arian.

29 Mae gan y Cyngor wybodaeth ar lefel prosiect digidol unigol i allu penderfynu ar gynnydd a gwerth am arian yn y dyfodol. Mae angen i wasanaethau sy'n cyflwyno syniadau ar gyfer prosiectau digidol i'r Bwrdd Trawsnewid Digidol ddangos cysondeb â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy, strategaeth ddigidol y Cyngor yn ogystal ag:

- arbediad Cynllun Ariannol Tymor Canolig (ynghyd â'r swm ac erbyn pryd);
- nodi cyfleoedd cyllid eraill;
- manteision na ellir eu cyfleu ar sail arian parod; a
- pha un a yw'r prosiect yn gwella gwasanaeth cwsmeriaid yn uniongyrchol.

30 Mae’r Cyngor wedi datblygu meini prawf sgorio cadarn i asesu rhinweddau’r prosiectau digidol arfaethedig unigol yn seiliedig ar y manylion uchod a ddarparwyd gan wasanaethau. Mae’r meini prawf sgorio yn gynhwysfawr ac wedi’u dylunio i gynnwys sawl elfen allweddol i gynorthwyo’r broses o wneud penderfyniadau ac ystyried canlyniadau pob prosiect yn y dyfodol.

31 Trwy ofyn bod gwasanaethau yn nodi costau a manteision prosiectau unigol wrth wneud cais am gymorth ariannol, mae gan y Cyngor yr wybodaeth ar y cychwyn i asesu a monitro’r costau a’r manteision wrth fonitro cynnydd.

## Fe wnaeth y Cyngor adolygu ei strategaeth ddigidol flaenorol, ond nid oedd hwn yn adolygiad ffurfiol ac ni dderbyniodd aelodau ei ganlyniad

32 Fe wnaeth y Cyngor adolygu’r strategaeth ddigidol flaenorol i ddarganfod yr hyn a gyflawnwyd ganddi o’i gymharu â’r hyn yr aeth y Cyngor ati i’w gyflawni. Nid oedd hwn yn adolygiad ffurfiol ac ni dderbyniodd y Cabinet y canlyniad, ond rydym yn cydnabod bod y strategaeth flaenorol wedi dod i ben ar adeg pan mai blaenoriaeth y Cyngor oedd ymateb i’r pandemig. Ni ystyriodd yr adolygiad hwn y trefniadau ehangach a oedd ar waith ar yr adeg honno i oruchwylio’r broses o fonitro ac adrodd ar y strategaeth flaenorol. Fodd bynnag, nid yw’r diffyg adolygiad ffurfiol wedi atal y Cyngor rhag gwella ei drefniadau i fonitro ac asesu’r strategaeth bresennol, yn enwedig trefniadau i asesu costau a manteision cynorthwyo gweithrediad prosiectau digidol yn ariannol.

33 Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ddysgu gwersi o ddarparu ei strategaeth ddigidol bresennol. Mae’r Cyngor yn bwriadu cyflawni archwiliad o’i Strategaeth Ddigidol a’i Gynllun Rhaglen yn 2026 ac adolygu’r strategaeth a llunio adroddiad cloi diwedd Rhaglen yn 2028. Gall adolygu effeithiolrwydd ei ddull strategol, a dysgu a rhannu gwersi o hyn helpu’r Cyngor i wella effeithiolrwydd a gwerth am arian ei ddull yn y dyfodol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Isod mae'r cwestiynau y gwnaethom geisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn archwilio: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol? | 1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' (h.y. y galw/materion cyfredol i'w datrys) a'r rhesymau pam/achosion sylfaenol?<br><br>1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio a'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio (e.e. risgiau a chyfleoedd)? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<br>– cynaliadwyedd gwasanaeth/gwytnwch a heriau adnoddau.<br>– anghenion y cyhoedd a'r gymuned.<br>– achosion sylfaenol y galw/materion cyfredol i'w datrys.<br>– dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a sut y gallent effeithio, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, lleihau adnoddau naturiol ac yn enwedig datblygiadau technolegol. Efallai y byddan nhw hefyd yn cynnwys y rhai sydd â lefel uwch o ansicrwydd e.e. swyddi a sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol.<br>• Mae'r dadansoddiad o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid yn cael ei lywio'n dda gan weithgarwch cyfranogi, fel y bo'n briodol, sy'n adlewyrchu |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
| --- | --- | --- |
| | | arfer da cydnabyddedig (e.e. Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd yng Nghymru, cyngor ac arweiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<br>– nodi camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau; a<br>– llywio penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio cydbwyso'r angen i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hwy. |
| 2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o ymdrin â digidol - hy pa mor bell ymlaen y gall / y dylai gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu sicrhau'r effaith orau dros yr amserlen honno o ran canlyniadau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrraeth priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn: Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn y broses gyllidebu – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a hirdymor a gwerth am arian, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd ei strategaeth ddigidol yn cael adnoddau dros y tymor hwy cyn belled ag sy'n ymarferol (gweler meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio hefyd). |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | 2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:<br>• sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar eraill yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant.<br>• Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall beth mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn berthnasol ac wedi ceisio integreiddio eu gwaith gydag un eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a chyda sefydliadau partner.<br>• Mae integreiddio yn amlwg wrth alinio'r strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol eraill a chynlluniau gwasanaeth. Er enghraifft, cynllun ariannol tymor canolig, cynllun gweithlu, strategaethau rheoli asedau, datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.<br>• Mae'r strategaeth ddigidol yn cyd-fynd â dibenion strategol eraill fel:<br>– profiad y cwsmer;<br>– rheoli galw/gostyngiadau mewn methiant ac atal galw; a<br>– dylunio a gweithredu modelau cyflenwi gwasanaeth newydd.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys strategaeth ddigidol a chynlluniau llesiant Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru. |
| | 2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni? | • Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlir o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a'r effaith a fwriedir ar ddarparu gwasanaethau.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol | 3.1 A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy fydd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan ei strategaeth ddigidol a phwy y mae angen iddo ei gynnwys.<br>• Mae'r Cyngor i bob pwrpas wedi cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol ac o'r rhai y gallai fod wedi methu â chyrraedd o'r blaen. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor i bob pwrpas yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y mae ei strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o gam cynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau cyfranogiad i lunio dyluniad a chyflwyniad ei strategaeth ddigidol. |
| | 3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol â'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell canlyniadau a gwerth am arian drwy ei strategaeth ddigidol ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft:<br>– rhannu neu rannu arbenigedd ac adnoddau;<br>– rhannu gwybodaeth;<br>– sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol gan gynnwys ystyried gwerth am arian. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 4. A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol? | 4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau tymor hir? | • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau ataliol tymor hir a'r gost (yn ariannol ac o ran canlyniadau) peidio â gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes cyfan) a sut y gallai reoli risgiau/cwrdd â'r costau hynny, gan gynnwys, er enghraifft, cynlluniau 'buddsoddi i arbed' a gostyngiadau rheoledig mewn dyled dechnegol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud drwy weithredu ei strategaeth ddigidol. |
| | 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau i sicrhau gwell canlyniadau dros y tymor hir? | • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a/neu ddefnydd o adnoddau dros y tymor hwy yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi, hyd yn oed:<br>– lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr;<br>– lle mae'r buddion yn debygol o gael eu cronni gan, neu eu priodoli i sefydliad arall. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd? | 5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a thymor hwy? | • Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/partneriaeth.<br>• Caiff cynnydd ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, canolig a thymor hir. |
| 6. Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio? | 6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cyfranogi, gan gynnwys effaith y strategaeth<br>– ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol;<br>– effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>– economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol yn gyffredinol wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r dysgu hwn i'w strategaeth ddigidol. |
| | 6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd o'i ymagwedd at ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a chyflwyno ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.